Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Adolygiad o Reoleiddio'r Post 2022

## Ymgynghoriad ar newidiadau i ofynion adrodd o ran rheoleiddio'r Post Brenhinol

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 14 Medi 2022

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 26 Hydref 2022

# 1. Trosolwg

**Mae'r ddogfen hon yn nodi cynigion Ofcom ar gyfer newidiadau i'r gofynion adrodd am reoleiddio a bennir ar gyfer y Post Brenhinol.**

Cyhoeddwyd ein Datganiad Adolygiad o Reoleiddio'r Post ym mis Gorffennaf 2022. Mae'n disgrifio ein penderfyniad ar reoleiddio gwasanaethau post rhwng 2022 a 2027, gyda'r nod o sicrhau bod gan ddefnyddwyr y post fynediad at wasanaethau post syml, fforddiadwy a dibynadwy sy'n diwallu eu hanghenion; gan sicrhau gwasanaeth post cyffredinol sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithlon; a chefnogi cystadleuaeth effeithiol mewn gwasanaethau post er budd defnyddwyr.

Fel rhan o'r penderfyniad hwn, bu i ni benderfynu cryfhau ein fframwaith monitro mewn perthynas ag adrodd ar gynaladwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol. Bydd yn ofynnol yn awr i'r Post Brenhinol gyflwyno trosolwg blynyddol o gynaladwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol dros gyfnod o bum mlynedd. Bob pum mlynedd, bydd yn ofynnol hefyd iddo ddarparu rhagolwg cyfrinachol manwl sy'n cynnwys metrigau effeithlonrwydd penodol am gyfnod o bum mlynedd a chyhoeddi dau fesur o'i ddisgwyliadau effeithlonrwydd o'r rhagolwg hwnnw. Bydd yn ofynnol hefyd i'r Post Brenhinol gyhoeddi ei gynnydd yn erbyn y disgwyliadau hynny yn flynyddol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi sut rydym yn bwriadu gweithredu'r penderfyniadau hyn.[1]

Mae'r gofynion adrodd am reoleiddio a osodir ar y Post Brenhinol yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom ar gyfer ein trefn fonitro, sy'n fesur diogelu allweddol o'n fframwaith rheoleiddio gwasanaethau post. Mae'r newidiadau yr ydym yn eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn yn adeiladu i raddau helaeth ar y wybodaeth yr ydym eisoes yn mynnu i'r Post Brenhinol ei darparu. Rydym wedi defnyddio ymagwedd gymesur, gyda'r nod o ddileu gofynion pan fo hynny'n bosib ac yn briodol.

[1] Rydym hefyd yn cynnig nifer fach o newidiadau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â'n penderfyniadau yn Natganiad Gorffennaf 2022, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i dderbyn yr wybodaeth sydd ei hangen arnom gan y Post Brenhinol i gyflawni ein dyletswyddau mewn perthynas â chynaladwyedd ac effeithlonrwydd, ac ar yr un pryd sicrhau bod y baich adrodd ar y Post Brenhinol yn gymesur.

## Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

- **I'w gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol gyflwyno rhagolwg ariannol blynyddol i Ofcom sy'n ymdrin â chyfnod o bum mlynedd (y Rhagolwg Ariannol Blynyddol).** Byddai hyn yn disodli'r gofyniad presennol i ddarparu ei Gynllun Busnes Strategol a'i Gyllideb Flynyddol. Byddai cynnwys y Rhagolygon Ariannol Blynyddol yn debyg i ofynion presennol y Cynllun Busnes Strategol a'r Gyllideb Flynyddol o ran cynnwys, ond byddai hyd y rhagolwg yn cael ei bennu a byddai'r gofyniad i gyflwyno metrigau effeithlonrwydd penodol bob blwyddyn yn cael ei ddileu. Byddai'n rhaid i'r rhagolygon hefyd gymryd canlyniadau gwirioneddol diweddaraf y Post Brenhinol i ystyriaeth a gweddu i'r cynllun busnes a gymeradwyir gan fwrdd y Post Brenhinol ei hun, gan sicrhau bod ein gwaith monitro ar gynaladwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol yn seiliedig ar wybodaeth, amcanion a disgwyliadau diweddaraf y Post Brenhinol. Byddai'n rhaid cyflwyno'r rhagolygon erbyn 31 Mai bob blwyddyn.
- **I'w gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol gyflwyno rhagolwg ariannol i Ofcom bob pum mlynedd sy'n cynnwys gwybodaeth effeithlonrwydd allweddol am gyfnod o bum mlynedd (y Rhagolwg Ariannol Pum Mlynedd).** Byddai'r Rhagolygon Ariannol Pum Mlynedd yn cael eu defnyddio fel meincnod y byddwn yn tracio cynnydd effeithlonrwydd y Post Brenhinol yn ei erbyn. Byddai'n rhaid cyflwyno'r rhagolygon i Ofcom erbyn 31 Mai bob pum mlynedd.
- **I'w gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol gyhoeddi dau fesur o'i ddisgwyliadau effeithlonrwydd o'r Rhagolwg Ariannol Pum Mlynedd, bob pum mlynedd, ac i adrodd yn gyhoeddus ar gynnydd yn erbyn y disgwyliadau hynny ym mhob blwyddyn ddilynol.** Bydd un mesur yn rhoi trosolwg lefel uchel o'i uchelgeisiau o ran effeithlonrwydd, a bydd y llall yn rhoi cipolwg ar effeithlonrwydd gweithredol disgwyliedig ei staff rheng flaen. Byddai'r disgwyliadau hyn yn galluogi rhanddeiliaid i weld barn y Post Brenhinol am ba gwmpas sydd ar gyfer mesurau effeithlonrwydd a meincnod ar gyfer mesur ei gynnydd. Byddai'n rhaid i'r Post Brenhinol hefyd roi sylwadau ar ei gynnydd blynyddol, er mwyn i randdeiliaid ddeall y ffactorau sydd wedi effeithio arno. Yn ôl pob tebyg, caiff y disgwyliadau a'r cynnydd blynyddol eu cyhoeddi yn natganiadau ariannol rheoleiddio'r Post Brenhinol.
- **Parhau i'w gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol adrodd ar ei berfformiad gwirioneddol yn rheolaidd i Ofcom** yn erbyn nifer o fetrigau, gyda rhai gofynion newydd a rhai newidiadau i fanylder yr wybodaeth sydd ei hangen a'r rheolau sy'n ymwneud â pharatoi gwybodaeth ategol. Byddai'r newidiadau hyn yn sicrhau y gellir cymharu canlyniadau go iawn y Post Brenhinol yn uniongyrchol â'i ragolygon er mwyn i ni dracio cynnydd y Post Brenhinol yn gywir, a sicrhau bod gennym yr wybodaeth sydd ei hangen arnom i ystyried cynaladwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol.

Byddai'r newidiadau i'r gofynion adrodd yn dod i rym ar ddechrau blwyddyn ariannol 2023/24, sef 27 Mawrth 2023.

Crynodeb lefel uchel wedi’i symleiddio sydd yn adran trosolwg y ddogfen hon. Disgrifir y cynigion yr ydym yn eu gwneud a'n sail resymegol drostynt yn y ddogfen lawn.

Rydym yn gwahodd ymatebion i'r cwestiynau a godir yn yr ymgynghoriad hwn, a grynhoir yn Atodiad 4, erbyn 5pm ar 26 Mawrth 2022. Ceir manylion sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn Atodiad 1. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein datganiad ar reoleiddio gwasanaethau post yn y dyfodol yn Ch4 2022-23.